## Gwledd ym Myd y Llyfr: Rhaglen y Cylch Llyfryddol, 2026–27

Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â chyfarfodydd Cylch Llyfryddol Caerdydd, un o gymdeithasau diwylliannol Cymraeg mwyaf llewyrchus y brifddinas.

Mae cyfarfodydd y Cylch yn cael eu cynnal am 7.15pm ar nos Wener unwaith y mis dros fisoedd y gaeaf, rhai ohonynt wyneb yn wyneb ac eraill trwy gyfrwng Zoom.

Mae **dau** o'n cyfarfodydd eleni (sef rhai Medi a Mawrth) yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU.

Mae'r **pedwar** cyfarfod arall (sef rhai Hydref, Tachwedd, Ionawr a Chwefror) yn cael eu cynnal trwy gyfrwng Zoom. I dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at yr Ysgrifennydd: Cadi Thomas, cylchllyfryddolcaerdydd@gmail.com

**Y tâl aelodaeth yw £10 am y flwyddyn – bargen!**

Gellir talu'r tâl aelodaeth wyneb yn wyneb yn y cyfarfod cyntaf;

**NEU** drwy ei dalu'n syth i gyfrif banc Cylch Llyfryddol Caerdydd (Cod Didoli: 20-18-15; Cyfrif Rhif 10166758);

**NEU** drwy ei anfon at y Trysorydd, Berwyn Prys Jones, Gelli Glyd, 8 Tyn-y-Cae Grove, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6DB (ffôn: 029-2062-5417; ebost: berwynjones3@gmail.com).

Wrth dalu i'r cyfrif banc, nodwch eich enw fel cyfeirnod er mwyn i'r Trysorydd wybod pwy sy'n talu. Sieciau'n daladwy i 'Cylch Llyfryddol Caerdydd'.

### RHAGLEN GAEAF 2026–27

### MEDI - TACHWEDD

***Gwener, 25 Medi 2026, am 7.15pm yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival***
'Llinellau: Cerddi'r Gadair 2026' – cyflwyniad gan y Prifardd Emyr Lewis

***Gwener, 16 Hydref 2026, am 7.15pm trwy gyfrwng Zoom***
'Olrhain hynt a hanes y gynghanedd' – Alan Llwyd yn cael ei holi gan Aron Pritchard

***Gwener, 20 Tachwedd 2026, am 7.15pm trwy gyfrwng Zoom***
'Y Cyfan a Fu Rhyngom Ni – 'Atgof' Prosser Rhys a nofel gudd Morris T Williams' – cyflwyniad gan Iestyn Tyne

### CROESO CYNNES I BAWB

*Cydnabyddwn yn ddiolchgar gymorth a chydweithrediad Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.*